SUL CYFFREDIN 7

GENESIS 21:8-21; SALM 86:1-10;
RHUFEINIAID 6:1B-11; MATHEW 10:24-39

● **Gweddi agoriadol**
Dy rodd werthfawr yw'r diwrnod hwn,
fe'i derbyniwn gyda diolch.
Cyfeiria ein meddyliau a'n gweithredoedd,
inni wneud gwell defnydd ohono
yn addoli a gwasanaeth ein bywydau.
Dy rodd werthfawr di yw'r diwrnod hwn;
gad i ni ei rannu yn llawen.

● **Moliant**
Mae dy gariad y tu hwnt
i'n gallu i'w fynegi,
y gallet garu pob un ohonom
ddigon i gario croes.

Arweinydd: Mor fawr yw dy enw
Pawb: A theilwng o fawl!

Mae dy heddwch yn ddigon cryf
i dawelu'r stormydd sy'n bygwth ein bywyd;
a'n harwain i ddyfroedd tawelach
ble gallwn orffwys dro.

Arweinydd: Mor fawr yw dy enw
Pawb: A theilwng o fawl!

Dy lawenydd yw'r melyster sy'n dod â gwên
i godi'r galon drom,
a rhoi digon o olau i'n harwain drwodd
pan fo'r cwbl yn dywyll.

Arweinydd: Mor fawr yw dy enw
Pawb: A theilwng o fawl!

● **Cyffes**
Pan anghofiwn
bopeth a wnaethost,
maddau i ni Arglwydd, os gweli'n dda.

Pan anghofiwn
y cariad a ddangosaist
a doethineb dy eiriau,
maddau i ni, os gweli'n dda.

Pan anghofiwn
y bywyd a roddaist
a'th Ysbryd yn ein calon,
maddau i ni, os gweli'n dda.

Pan anghofiwn
dy alwad i wasanaethu,
ac i wrando ar ein byd,
maddau i ni, os gweli'n dda.

Pan anghofiwn
bopeth a wnaethost,
tyn ni at dy draed
a rho faddeuant, Arglwydd, os gweli'n dda.

● Diolch

Diolch i ti am roi llais i ni
y gellir ei glywed yn glir
uwchlaw dwndwr ein byd;

cleddyf miniog
yn torri drwy sŵn dryslyd
y rheini sy'n dy wadu;

yr awdurdod
i siarad y gwir yn dy enw glân,
a dod â golau i'r gornel dywyll hon;

llais proffwydol
a'r dewrder i'w ddefnyddio,
i gyffwrdd calonnau yma nawr.

Diolch i ti am roi llais i ni
y gellir ei ddeall yn glir
yn cyhoeddi dy enw gogoneddus.